



Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Fflur Lawlor

E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

Ffôn symudol/Mobile: 07891677597

Cyfarfod mis Tachwedd Cyngor Tref Tregaron / Tregaron Town Council November Meeting

Nos Lun / Monday 19.12.2022

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

COFNODION CYFARFOD CYNGOR MIS RHAGFYR / DECEMBER COUNCIL MEETING MINUTES

	Eitem / Item	Gweithred / Action
1.	<p>CROESO / WELCOME Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Rhydian Wilson (Cadeirydd/Chair), Arwel Jones, Laura Sherman, Owain Pugh, Catherine Hughes, Dafydd Richards, Sian Jones, Rhian Jones & Rhian Hughes</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p>	
2.	<p>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES Cyng / Cllr Dewi Evans & Karen Bulman</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member</p>	
3.	<p>DATGAN DERBYN SWYDD / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST Darllenodd y Cyng Rhian Hughes y datgan derbyn swydd, a'i arwyddo. Cytunwyd i dderbyn Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion.</p> <p><i>Cllr Rhian Hughes read and signed and acceptance of office. It was agreed to accept the Ceredigion County Council Code of Conduct.</i></p>	
4.	<p>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS Diolchodd y Cadeirydd i bawb am yr help gyda dathliadau Nadolig y dref. Bydd angen mwy o stiwardiad y flwyddyn nesaf a hefyd angen groto i Sion Corn.</p> <p>Croesawyd Cyng Rhian Hughes i'w chyfarfod cyntaf gan y Cadeirydd.</p> <p><i>The Chair thanked everyone who helped with the Christmas celebrations. More stewards will be needed next year and a Santa Grotto.</i></p> <p><i>The Chair welcomed Cllr Rhian Hughes to her first meeting.</i></p>	
5.	<p>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT Ni allai PC John Evans fynychu'r cyfarfod ond darllenodd y Clerc e-bost a anfonwyd gyda gwybodaeth.</p>	

CADEIRYDD / CHAIRMAN

	<p>Trigolion wedi cysylltu â rhai Cynghorwyr gyda phryderon am gerbydau'n goryrru ar yr holl ffyrdd sy'n dod i mewn i'r dref – Clerc i ofyn i PC Evans os gall i Heddlu Traffig ymweld â'r dref.</p> <p>Mynegwyd pryderon eto am y parcio ar hyd Ffordd Dewi ac ynglŷn â char sydd wedi parcio yn y maes parcio.</p> <p><i>PC John Evans could not attend the meeting the Clerk read out an email sent with information.</i></p> <p><i>Residents have approached some Councillors with concerns about vehicles speeding on all roads that come into the town – Clerk to ask PC Evans for Traffic Police to visit the town.</i></p> <p><i>Concerns raised again about the parking along Dewi Road and regarding a car parked in the car park.</i></p>	Clerc / Clerk
6.	<p>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</p> <p>Cyng Sian Jones, Owain Pugh a Rhian Hughes yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth / penderfyniadau yn ymwneud a Cynllun Creu Coetir Glastir Llywodraeth Cymru.</p> <p><i>Cllr Sian Jones, Owain Pugh and Rhian Hughes declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Welsh Government Glastir Woodland Creation Scheme.</i></p>	
7.	<p>CADARNHAU COFNODION / APPROVAL OF MINUTES FROM 18/11/22</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.</p> <p><i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Owain Pugh Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Dafydd Richards</p>	
8.	<p>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</p> <p>8 A –</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cysgodfan Bws / Bus Shelter - Clerc wedi gofyn i CSC am ddyfynbris ond heb cael ymateb. Cysylltodd y Cadeirydd â TTS am ddyfynbris. Trafodwyd a phenderfynwyd gadael am y tro. <p><i>Clerk had asked CCC for a quote but had no answer. Chair contacted TTS for a quote. It was discussed and decided to leave for now.</i></p> <p>8 A –</p> <ul style="list-style-type: none"> - Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ceredigion Green & Blue Infrastructure Strategy – Clerc wedi cysylltu â CSC i ofyn a oedd y strategaeth yn fersiwn drafft - ateb gan CSC yn nodi nad oedd a'i fod yn derfynol. Cafwyd trafodaeth ac nid yw'r Cynghorwyr yn hapus gyda'r rhestr blaenoriaethau a adnabuwyd yn y strategaeth heb ymgynghori gyda nhw a'r gymuned. Clerc i gysylltu â'r aelod lleol, Cyng. Ifan Davies i ofyn os oedd ganddo fewnbwn i'r strategaeth. <p><i>Clerk had contacted CCC to ask if the strategy was a draft version - reply from CCC stating it wasn't and it was final. Discussion was held and Councillors aren't happy with the priorities list that was identified in the strategy without consulting with them and the community. Clerk to contact the local member, Cllr Ifan Davies to ask if he had any input to the strategy.</i></p>	Clerc / Clerk

	<p>- Roger Pride, Orchard – Branding Workshop – Clerc wedi siarad gyda Roger, mynd i ddod nôl â opsiynnau arall. <i>Clerc has spoken to Roger, going to come back with other options.</i></p> <p>14- 19.4 –</p> <p>- Gardd Cymunedol / Sied y Mart – Tom Williams, CSC fod wedi bod mewn cysylltiad am gosod trwydded am yr ardd gymunedol – heb dderbyn dim byd eto. Andrew Harries wedi ymweld safle sied y mart, sawl opsiwn i gael <i>Community Garden / Mart Shed – Tom Williams, CCC should have been in touch about issuing a license for the community garden – haven’t received anything yet. Andrew Harries has visited the mart shed, several options available</i></p> <p>14 – 19.7 –</p> <p>- Cyfarfod gyda Jack Griffiths , Tihill – Cadeirydd wedi cyfarfod gyda Jack ac wedi ebostio adborth o’r cyfarfod ymlaen at y Cynghorwyr. Mae rhai Cynghorwyr yn gwrthwynebu Cynlluniau Coetir Llywodraeth Cymru yn gryf a hoffent geisio gwneud rhywbeth yn ei gylch. Trafodwyd a phenderfynwyd cysylltu â chynghorau cymuned gyfagos ac aelodau lleol Cyng. Ifan Davies a’r Cyng. Rhodri Evans i ofyn a oes unrhyw gynlluniau yn digwydd yn eu wardiau ac os felly, beth maent wedi’i wneud yn ei gylch. Clerc i anfon e-bost. <i>Some Cllrs are strongly opposing the Welsh Government Woodland Schemes and would like to try and do something about it. It was discussed and decided to contact neighbouring community councils and local members Cllr Ifan Davies and Cllr Rhodri Evans to ask if any schemes are happening in their wards and if so, what have they done about it. Clerk to send email.</i></p> <p>14 – 19.8 –</p> <p>- Ebost wrth Betsan Moses yn cydnabod y llythyr diolch! <i>Email from Betsan Moses email in response to the letter of thanks!</i></p>	Clerc / Clerk
9.	<p>CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</p> <p>A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i></p> <p>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • 19/11/22 – Gerwyn Jones, Cysgodfan Bws / <i>Bus Shelter</i> • 24/11/22 – Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ceredigion <i>Green & Blue Infrastructure Strategy – ymateb wrth Connor Cook, Cyngor Sir Ceredigion / reply from Connor Cook, Ceredigion County Council</i> • 29/11/22 – Mannau Croeso Cynnes Ceredigion ar agor / <i>Warm Welcome Spaces open in Ceredigion</i> • 02/12/22 – Newidiadau i wasanaethau bws yng Ngheredigion / <i>Changes to bus services in Ceredigion</i> • 08/12/22 – Yngynghoriad Cyhoeddus – Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 / <i>Public Consultation – Ceredigion Local Well-being Plan 2023-28</i> • 12/12/22 – Defnydd o Swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol / <i>Future Use of Council Buildings</i> • 15/12/22 – Digwyddiadau Arbennig a Chymunedol / <i>Special and Community Events</i> • 15/12/22 – Cau Ffordd Ar Brys / <i>Emergency Road Closure: C1240 Tregaron Mountain Road</i> 	

B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / *Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –*

- Cyngor Sir yn ceisio cael lleoliad dros dro i gynnal sesiynau Canolfan Dydd i'r henoed. Y 3 safle sydd dan ystyriaeth yw Canolfan y Barcud, Neuadd Goffa a'r Clwb Bowlio.

County Council trying to get a temporary location to hold Day Centres sessions for the elderly. The 3 sites under consideration are the Kite Centre, Neuadd Goffa and the Bowling Club.

Newid i'r Gwasanaeth Bws 585 / *Change to Bus Service 585*

Ni hysbyswyd / ymgynghorwyd â'r Cyngor Tref ynghylch y newid yn y gwasanaeth bws i'r dref gan Gyngor Sir Ceredigion.

Roedd y Cyng. Laura Sherman a Catherine Hughes wedi codi'r mater mewn cyfarfod blaenorol ar ôl i drigolion gysylltu â nhw.

The Town Council were not informed / consulted regarding the change in bus service for the town from Ceredigion County Council.

Cllr Laura Sherman and Catherine Hughes had raised the issue in a previous meeting after residents contacted them.

10. **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**

10.1 –

Balans y Banc / *Bank Balance –*

- Cyfrif Busnes Cyfredol / *Business Current – £22,792.41*
- Cyfrif Busnes wrth gefn / *Business Reserve – £16,947.69*
- Cyfrif Busnes wrth gefn / *Business Current (Cadeirydd / Chairman) – £3,126.90*
- Cyfrif Busnes wrth gefn / *Business Reserve (Gratuity) – £360.31*

10.2 –

Taliadau mis Tachwedd / *November payments –*

- | | |
|--|---------|
| • Cyflog Gweithiwr Strydlun Hydref/ <i>Streetscene worker salary October</i> | £258.40 |
| • Cyflog y Clerc Mis Hydref / <i>Clerk salary October</i> | £276.00 |
| • HMRC Mis Hydref / <i>October</i> | £133.60 |
| • DAG Jones Auctioneer – taliad 2021 <i>payment</i> | £91.52 |
| • Specialist Flag Services | £269.00 |
| • Neuadd Goffa Tregaron <i>Memorial Hall</i> | £144.00 |
| • C Meredith – Coed Nadolig/ <i>Small Christmas Trees x 3</i> | £90.00 |

Cynnig/*Proposed: Cyng/Cllr Rhian Jones*

Eilio/*Seconder: Cyng/Cllr Laura Sherman*

10.3 –

Incwm / *Income –*

- Dim incwm mis yma / *No Income this month*

10.4 –

Cyllideb a Praesept 2023-24 / *Budget & Precept 2023-24*

Clerc /
Clerk

	<p>Cyflwynodd y Clerc wybodaeth am y sefyllfa ariannol diweddaraf a'r gyllideb am 2023/24. Cynhaliwyd trafodaeth a phenderfynwyd gosod prasept 2023/2024 yn £22,000 gyda unrhyw ddifyg yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn.</p> <p>The Clerk presented an update on the financial position and a budget for 2023/24. A discussion was held and it was decided to set the 2023/2024 precept at £22,000 and any deficit being funded from reserves.</p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Dafydd Richards Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Sian Jones</p> <p>Clerc, Cadeirydd ac Is-gadeirydd i gwrdd i drafod cwblhau'r gyllideb ddrafft. <i>Clerc, Chair and Vice Chair to meet to discuss finalising the draft budget.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng / Cllr Rhydian Wilson & Arwel Jones</p>
11.	<p>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER'S REPORT</p> <p>Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
12.	<p>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</p> <p>a) <u>Is-bwyllgor Parc a Blodau / Park & Flowers</u> Gwiriadau misol Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng Owain Pugh a Rhian Hughes yn cynnal y gwiriadau yn Rhagfyr / Ionawr. Gwiriadau bob pythefnos i'w wneud dros y gaeaf- Clerc i e-bostio pawb gyda'r ffurflen. Diolchwyd i Cyng Sian Jones am wneud mis diwethaf.</p> <p><i>Monthly Health & Safety checks of the Park to continue – Cllr Owain Pugh and Rhian Hughes will carry out the checks for December / January. Fortnightly checks to be carried out over the winter. Thanks was extended to Cllr Sian Jones for doing last month.</i></p> <p>b) <u>Cynllun Lle / Place Plan</u> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p> <p>c) <u>Bwrdd Digidol / Digital Board</u> Clerc wedi derbyn brasluniau - angen penderfynu ar y dyluniad er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith.</p> <p><i>Clerc has received mock ups - decision needs to be made on design in order to move forward with the work.</i></p> <p>d) <u>Is-bwyllgor Trefniadau'r Nadolig / Christmas Arrangements</u></p> <p>i. Cystadleuaeth addurno tŷ – gwobr £25 – dyddiad cau 20/12/22. <i>House decoration competition - prize £25 - closing date 20/12/22.</i></p> <p>Nid yw enillydd y gystadleuaeth i gystadlu'r flwyddyn ganlynol. <i>The winner of the competition is not to compete the following year.</i> Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Catherine Hughes Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Laura Sherman</p> <p>i. <u>Taith Sion Corn / Santa Tour</u> – Taith Santa – nos Iau 22ain Rhagfyr, 6pm</p>	<p>Cyng/Cllr Owain Pugh & Rhian Hughes</p> <p>Clerc / Clerk</p>

	<ul style="list-style-type: none"> ii. Evan Jones i ddarparu treilar i'r sled iii. Cynghorwyr i wisgo fel corachod <ul style="list-style-type: none"> i. <i>Santa's Tour – Thursday 22nd December, 6pm</i> ii. <i>Evan Jones to provide the trailer for the sled</i> iii. <i>Councillors to dress up as Elf's</i> 	
13.	<p>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS Prosiectau'r dyfodol i'w trafod yn y cyfarfod Adfywio Swyddfeydd Gwledig ddechrau Ionawr.</p> <p><i>Future projects to be discussed at the Rural Office Regeneration meeting beginning of January.</i></p>	
14.	<p>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
15.	<p>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
16.	<p>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p>	
17.	<p>PROSIECT CYLCH CARON / CYLCH CARON PROJECT Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
18.	<p>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</p> <p>18.1 – Cymorth Ariannol / <i>Financial Assistance – Ambiwylans Awyr Cymru - Wales Air Ambulance</i></p> <p>18.2 – Grwp Ffocws Entrepreneuriaeth a Datblygu Cymunedol yn y Mynyddoedd Cambria a'r Preseli / <i>Microenterprise and Community Development Focus Group in the Cambrian and Preseli</i></p> <p>18.3 – CIC Hywel Dda CHC – Dyfodol Gwasanaethau / <i>Future Paediatric Services</i></p> <p>18.4 – Gosodiadau Telathrebu Arfaethedig / <i>Proposed Telecommunications Installations at CS30705800 – Forest Clearing West, Tregaron Forest, Tregaron, Ceredigion, SY25 6NN – Cyng. Rhydian Wilson i ymateb / Cllr. Rhydian Wilson to respond.</i></p> <p>18.5 – Ymgynhoriad ariannu'r heddlu / <i>Police Funding consultation</i></p> <p>18.6 – Cylchlythyr CIC diweddaraf Hywel Dda / <i>Latest Hywel Dda CHC Newsletter</i></p>	<p>Cyng / Cllr Rhydian Wilson</p>
19.	<p>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</p> <p>19.1 – Parêd Gwyl Dewi / <i>St. David's Day Parade –</i> Derbyniwyd e-bost oddi wrth Rhodri Francis, Cered. Pawb yn gytûn i gynnal Parêd Dydd Gŵyl Dewi yn y dref. Bydd y Cyng. Catherine Hughes yn arwain ar ran y Cyngor Tref. Clerc i</p>	

<p>drefnu cyfarfod gyda Cered, Ysgol Henry Richard a'r Cyngor Tref. Cais i Gau Ffyrdd i'w gyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion. Neuadd Goffa i'w defnyddio hefyd.</p> <p><i>Email from Rhodri Francis, Cered received. All in agreement to hold a St.David's Day Parade in the town. Cllr Catherine Hughes will lead on behalf of Town Council. Clerk to arrange a meeting with Cered, Ysgol Henry Richard and Town Council. Application for Road Closure to be submitted to Ceredigion County Council. Memorial Hall to be used as well.</i></p> <p>19.2 – E-bost oddi wrth Laura O'Connor, Swyddfa Wledig – Cyfarfod ynglŷn â Chynllun Adfywio ar gyfer y dref i'w gynnal ar 10fed Ionawr. Cyng. Rhydian Wilson i gysylltu â Laura i gadarnhau dyddiad ac amser. Clerc i lunio rhestr o fynychwyr posibl ac anfon gwahoddiad trwy e-bost unwaith y bydd manylion y cyfarfod wedi'u cadarnhau. Pob Cynghorydd i fynychu.</p> <p><i>Email from Laura O'Connor, Rural Office – Meeting regarding Regeneration Plan for the town to be held on 10th January. Cllr Rhydian Wilson to contact Laura to confirm date and time. Clerk to put together a list of possible attendees and send invite via email once meeting details are confirmed. All Cllrs are to attend.</i></p> <p>19.3 – Biniau graean - angen gwirio'r holl finiau graean yn y ward ac a oes angen llenwi biniau'r Cyngor Tref. Cyng. Arwel Jones i wirio a llunio rhestr.</p> <p><i>Grit bins – need to check all grit bins in the ward and if Town Council owned bins need to be filled. Cllr Arwel Jones to check and compile a list.</i></p> <p>19.4 – Gofod Gardd gymunedol – Prosiect Pump Mil - ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor Tref unrhyw brosiectau yn barod i fynd. Edrychwn arno eto os daw cyfle.</p> <p><i>Community Garden space – Prosiect Pump Mil – at present, the Town Council have no projects ready to go. Will look at it again if opportunity arises.</i></p> <p>19.5 – Grant Tref Wledig –</p> <ul style="list-style-type: none"> - Balans grant yn weddill - £5,689.86 - Gwefan – dyfynbris gan Gwe Cambrian, £4,250 + TAW - Prosiect Wi-Fi – wedi ei gymeradwyo, yn aros i Ysgol Henry Richard a Chlwb Rygbi gadarnhau os oes modd lleoli'r pwynt Wi-Fi fi ar eu hadeilad. - Goleuadau Nadolig - wedi'u cymeradwyo, hanner y goleuadau wedi'u prynu - mwy i'w prynu yn y flwyddyn newydd <p><i>Rural Town Grant –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - Grant balance remaining - £5,689.86 - Website – quote from Gwe Cambrian, £4,250 + VAT - Wi-Fi project – been approved, waiting for Ysgol Henry Richard and Rugby Club to confirm if it's possible to locate the Wi-Fi point on their building. 	<p>Cyng / Cllr Catherine Hughes</p> <p>Cyng / Cllr Rhydian Wilson</p> <p>Cyng / Cllr Arwel Jones</p>
--	--

	<p>- <i>Christmas Lights – been approved, half of the lights have been purchased – more to purchase in new year</i></p> <p>19.6 – Red Dragon Flag Poles – archwiliadau LOLER wedi'u gwneud / <i>LOLER inspections done.</i></p> <p>19.7 – Cinio Blynyddol – trafodwyd a phenderfynwyd cael cinio blynyddol. Y Cyng. Arwel Jones i holi Clwb Rygbi Tregaron ynghylch argaeledd ar gyfer Ionawr 21ain.</p> <p><i>Annual Dinner – it was discussed and decided to have an annual dinner. Cllr Arwel Jones to enquire with Tregaron Rugby Club regarding availability for 21st January.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Arwel Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Owain Pugh</p> <p>19.8 – Cyng / Cllr Catherine Hughes – Trigolion yn cwyno am geir yn goryrru i mewn i'r dref. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ofyn am Dwmpathau Cyflymder, Wardeiniaid Traffig a mwy o linellau melyn. Hefyd, cysylltu â PC John Evans ynglŷn â phresenoldeb Heddlu Traffig yn y dref.</p> <p><i>Residents complaining about cars speeding into the town. Discussion was held and it was decided to contact Ceredigion County Council to ask for Speed Bumps, Traffic Wardens and more yellow lines. Also, contact PC John Evans regarding Traffic Police having presence in the town.</i></p> <p>Cyng / Cllr Arwel Jones – Cyfarfod ar Ionawr 7fed i dynnu'r coed Nadolig i lawr.</p> <p><i>Meet on 7th January to take down the Christmas trees.</i></p>	<p>Cyng / Cllr Arwel Jones</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Pawb / Everyone</p>
20.	<p>Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun Ionawr 19eg 2023 am 7.30pm. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron.</p> <p><i>The next monthly meeting will be held on Monday 19th January 2023 at 7.30pm. It will be held at Tregaron Memorial Hall.</i></p>	
21.	<p>Terfynwyd y cyfarfod / <i>Meeting was closed</i></p>	